# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com   @LlaisLlandyrnog

**Mawrth 2021 – Cyfrol 6 – Rhifyn 6**

## Newyddion diweddaraf Arla

Cafwyd y newyddion diweddara gan Arla ganol mis Chwefror yn cadarnhau y bydd yn cwblhau'r gwaith o symud offer oddi ar y safle cyn bo hir. Wedyn bydd tîm yn gweithio ar y safle tan ganol mis Mawrth i orffen yr holl waith cysylltiedig. Ar ôl hynny, dim ond gwaith cynnal a chadw fydd yn digwydd yno.

Mae'r cwmni'n parhau i geisio marchnata'r safle i'w werthu.








Caewyd y ffordd o flaen y safle 23–25 Chwefror er mwyn dod â chraen i'r safle i symud y seilos oddi ar y safle.





**Dydd Gŵyl Dewi Sant hapus i'n darllenwyr**

**Diolch am eich cefnogaeth bob amser**



# Pytiau newyddion y pentre

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â theulu Lis Morris, a roddwyd i orffwys ym mynwent St Tyrnog ar ôl angladd preifat ddydd Sadwrn, 20 Chwefror yng Nghapel y Dyffryn. Roedd Lis yn gymeriad arbennig ac yn boblogaidd iawn yn y pentref ac ym mhob maes roedd hi'n gysylltiedig ag o. Rhoddwyd teyrnged bwrpasol iawn iddi gan Nic Parry, Cadeirydd Cwmni Drama Rhuthun.

Roedd hi'n ddrwg gennym glywed bod Ted Rawsthorne, Maes Tyrnog yn yr ysbyty a dymunwn yn dda iddo. Hefyd dymuniadau da i Olwen Roberts, Maes Clwyd, yn dilyn ei harhosiad hithau yn Ysbyty Glan Clwyd.

Llongyfarchiadau i Rona Aldrich ar ei phen-odiad i Banel Ymgynghori Comisiynydd y Gymraeg. Bydd Rona yn dechrau ar ei gwaith ym mis Ebrill, ar ôl iddi greu argraff ar y Comisiynydd gyda'i harbenigedd ar draws sawl maes sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg.

Dymuniadau da i Helen Juckes-Hughes, sydd wedi ymddeol ar ôl nyrsio am 31 o flynydd-oedd. Mae hi wedi cael gyrfa lwyddiannus a dylanwadol iawn, a'i swydd ddiweddaraf oedd metron offthalmoleg yn yr Uned Llygaid yn Ysbyty Abergele. Roedd Helen yn flaenllaw wrth gefnogi cysylltiad yr uned ag adran lygaid Prifysgol Hawassa yn Ethiopia, yn darparu rhaglenni dysgu a gweithgareddau eraill i helpu'r uned.

Roedd hi'n destun pryder i nifer o'r pentref-wyr pan ddiflannodd Gavin, yr un sy'n danfon parseli atom. Mae Gavin yn ymweld yn rheol-aidd (bob dydd, weithiau) â nifer o gartrefi yn Llandyrnog ac roedd rhai'n sôn ei fod yn sâl. Ond, wedi cymryd seibiant haeddiannol yr oedd. Felly, Gavin, roedd pobl Llandyrnog yn gweld dy fethu'n fawr, er dy fod di'n absennol am gyfnod byr yn unig. Codwn ein bodiau, un ag oll, i ddangos ein bod yn dy werthfawrogi!

Llongyfarchiadau Morgan Moorcraft a Dylan ar enedigaeth eu merch, Ruby Jane Ford; i John a Caroline Morgan, Coed y Ffynnon ar enedigaeth eu merch, Torvi, chwaer i Ivor; ac i Shane a Jess, Fron Gelyn ar enedigaeth eu mab, Kit Maverick, brawd i Archie a Roscoe.

Pen blwydd Hapus i Helga Norbury, a fu'n byw yn y pentref, ac rydym yn dal i gofio'n annwyl amdani.



# Offer chwarae i Gae Nant

Mae'r Cyngor Cymuned wedi cytuno i uwch-raddio a gwella'r offer chwarae i blant iau yng Nghae nant. Mae wedi gosod posteri yn Swyddfa'r Post ac ar gatiau'r caeau chwarae i ddangos y cynigion. Enillodd cwmni Wicksteed y broses o gynnig am y gwaith, cwmni sydd wedi gwella parciau chwarae eraill, gan gynnwys yr Hob, ger Wrecsam. Bydd cynrych-iolwyr y cwmni yn ymweld â Chae Nant yn gynnar ym mis Mawrth i drafod y cynllun terfynol ac i gytuno ar y rhaglen waith. Gobeithir y bydd y gwaith wedi gorffen erbyn diwedd mis Ebrill eleni.

# Gair gan y Rheithor

Cyn bo hir bydd hi'n flwyddyn ers dechrau'r cyfnod clo cynta. Rydym wedi bod trwy adeg heriol iawn ond wrth i fwy a mwy o bobl gael y brechlyn, mae'r sefyllfa'n dechrau gwella. Gobeithiwn y bydd hi'n ddiogel i godi'r cyfyngiadau cyn bo hir.

Yn yr eglwys rydym yn nhymor y Grawys – ac ar yr adeg hon mae pobl fel arfer yn rhoi'r gorau i rywbeth neu hyd yn oed yn dechrau rhywbeth newydd. I Gristnogion, mae'n gyfnod i rannu deugain diwrnod Crist yn yr anialwch ac i ddod yn nes at Dduw.

Sul y Mamau neu Sul Ymborth yw pedwerydd Sul y Grawys – diwrnod heb ddisgyblaeth y Grawys. Mae'n ddiwrnod i ddathlu pob mam a diolch am eu cariad. Mae Sul y Mamau yn bod ers amser maith. Gannoedd o flynyddoedd roedd yn ddiwrnod i anrhydeddu'r Fam Eglwys a byddai pobl yn mynd i wasanaeth arbennig yn y Fam Eglwys, neu'n dychwelyd i'r eglwys lle cawson nhw eu bedyddio. Eglwys Gadeiriol Llanelwy yw Mam Eglwys ein hesgobaeth ni.

Mae'r syniad o roi blodau ar Sul y Mamau yn dod o'r traddodiad o ddod â blodau i addurno'r Fam Eglwys. Byddai'r rheini a oedd yn dychwelyd i'w heglwys ar y diwrnod hwn yn casglu'r blodau ar eu ffordd yno. Byddai'r blodau'n cael eu dangos yn yr eglwys, eu bendithio ac wedyn eu rhannu ymhlith y gynulleidfa. Yn ddiweddarach, daeth Sul y Mamau yn ddiwrnod i bobl ifanc a oedd yn gweithio oddi cartref fel gweision gael seibiant a mynd adre i ymweld â'u mamau. Yn aml bydden nhw'n mynd â chacen Rawys yn rhodd.

Atgyfodwyd traddodiad Sul y Mamau yn 1913 ac ers hynny mae'r enw mwy cyfarwydd yn Saesneg, *Mother's Day*, wedi disodli'r hen enw, *Mothering Sunday*. Weithiau, yn ein byd Gorllewinol, mae'n gallu bod yn ddigwyddiad masnachol arall – ac erbyn hyn mae cerdyn i bob perthynas, nid dim ond i Mam. Efallai fod hyn yn mynd â ni'n ôl i gysyniad gwreiddiol teulu Duw'n dod ynghyd – yn diolch ein bod i gyd yn haeddu ein dathlu, beth bynnag yw'n safle yn y teulu.

Mae caru a meithrin ein plant yn rhodd wych. Mae unrhyw un sydd wedi croesawu babi bach i'r teulu – mab neu ferch, ŵyr neu wyres, nai neu nith – yn gwybod am y llawenydd a ddaw yn ei sgil. Mae pob babi yn dyst prydferth i gariad Duw, ond mae gwaith caled, pryder ac aberth, ynghlwm wrth fagu plentyn a'i garu. Mae un dyfyniad yn dweud, 'Mae merched yn teimlo'r gwir lawenydd o fod yn fam pan mae'r plant, o'r diwedd, i gyd yn eu gwelyau ac yn cysgu.'

P'run ai a ydych chi'n fam, yn nain, yn fam fedydd, neu'n helpu i ofalu am blant, rydych chi'n gwneud gwaith gwych. Daliwch ati!

*Gweddi ar gyfer Sul y Mamau*

*Dduw cariad, ganwyd dy fab Iesu i deulu Mair a Joseff ar y ddaear: bendithia'r holl rieni a phawb sy'n gofalu am blant. Helpa ni i ddangos dy gariad yn ein cartrefi, fel eu bod yn fannau llawn cariad, diogelwch a gwirionedd. Amen*

Gyda phob bendith.

*Val Rowlands*


**GLYN EVANS AUTOCLINIC**

**Canolfan Trwsio Ceir**

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

**01745 815141**
**07808970364**

# Nodiadau o Blas Ashpool

Diolch byth bod y tywydd oer hwnnw wedi mynd – gobeithiwn y bydd yn cynhesu o hyn ymlaen. Wrth yrru ar hyd y ffordd i'r Wyddgrug yn ystod yr wythnos honno, sylwais ar rywbeth dwi heb ei weld ers talwm iawn – pibonwy – yn hongian o landeri, darnau disglair o iâ ar ymylon y ffrydiau niferus sydd wrth ochr yr hen felin ger y Cherry Pie. Dyma hel atgofion am fy mhlentyndod, o'u torri oddi ar adeiladau ar y fferm a'u sugno fel lolipops rhew. Roedd hefyd yn fy atgoffa o'r dyddiau pan fyddai sawl un o'r pyllau gwlith yn y caeau (mae'r rhain wedi hen fynd erbyn hyn oherwydd system draenio dwys) wedi'u rhewi'n gorcyn a minnau'n nôl dau bâr o sgidiau sglefrio hen, lledr, y naill bâr yn frown a'r llall yn wyn. Bydden ni'n eu rhannu, waeth a oedden nhw'n ffitio'n iawn ai peidio! Roedden ni'n syrthio'n aml, ond erbyn diwedd y dydd roedden ni'n hynod falch o'n hymdrechion i droelli a chwyrlïo.

Ond nid aeth y tywydd oer heibio heb adael ei ôl yma ym Mhlas Ashpool. Yr hen Lord Lavender annwyl, yr unig geiliog Lavender Pekin oedd yn weddill, oedd fy ffrind pluog hynaf, yn naw neu ddeg oed. Yn anffodus, cymerodd ei anadl olaf o aer llawn eira o Siberia, a gadwodd y fuchedd hon, gan orwedd yn un lwmp o rew ger ei ddysgl fwyd. Gobeithio'i fod wedi mwynhau ei bryd olaf un.

Mae un haid o wenyn hefyd wedi marw oherwydd yr oerfel ofnadwy, efallai oherwydd diffyg digon o fwyd wrth gefn (mae'n bosib 'mod i wedi rhoi siop siwgr iddyn nhw ychydig yn rhy hwyr) a'i bod yn haid fach. Mae gwenyn yn hel at ei gilydd yng nghanol y cwch pan mae'n oer yn y gaeaf i gynnal tymheredd sefydlog angenrheidiol i'w galluogi i fyw. Gwaetha'r modd, rwy'n credu bod y gwynt-oedd oer yn ormod iddyn nhw.

Fy adduned newydd ar gyfer 2021 – rhoi mwy o sylw i ofalu am fy ngwenyn a chael rhagor o geiliogod dandi pekin.

Mae hi wedi bod yn rhy oer a gwlyb i wneud unrhyw waith mawr yn yr ardd, ond wrth fynd am dro drwyddi yn ddiweddar, roedd edrych ar liwiau cynnar y gwanwyn yn codi 'nghalon i. Yn yr hen berllan, sydd â dim ond un hen goeden ellyg ynddi, mae'r eirlysiau'n dod at ei gilydd yn dda. Rwy'n eu rhannu ac yn symud rhai bob blwyddyn, gan obeithio y caf i garped gwyn rywbryd yn y dyfodol. Bylb bach sy'n hynod wydn yw'r *Iris reticulata*. Mae gen i ychydig yma ac acw ac mae'r glas dwfn yn amlwg iawn yr adeg hon o'r flwyddyn. Rydyn ni wedi bod yn brysur yn plannu rhagor o wrychoedd cynhenid eto ac wrth ein boddau fod y gwrychoedd a gafodd eu plygu fis Chwefror diwetha yn edrych yn addawol. Mae'n siŵr y bydd dail bach cynnar y ddraenen wen yn dod allan cyn bo hir.

Tan hynny, dwi'n mynd i fwynhau prydferthwch yr ardd a chanu llon yr adar. Gobeithio y byddwch chithau hefyd. Mwynhewch y garddio!

*Fiona Bell*


**City Travel & Tours**



Local ABTA &
ATOL Bonded
Independent
Travel Agent

Cruises, coach tours, family holidays, skiing trips, concert events, UK breaks – you name it, we can book it for you.

Karin, Lesley & Jackie have a combined 90 years of travel experience, so call us for friendly travel advice.

**We are based at Tweedmill, St Asaph**
**Tel: 01745 730321**
**Email: citytravel@tarsc.net**

# Gwybodaeth am ysgolion yn ailagor yn sir Ddinbych

Cyhoeddwyd y datganiad canlynol i'r wasg ym mis Chwefror gan Gyngor Sir Ddinbych. Yn ôl pennaeth Ysgol Bryn Clwyd, y gobaith yw cael rhagor o wybodaeth cyn ailagor yn gyfan gwbl a bydd yn cysylltu â phawb sy'n gysylltiedig â'r ailagor cyn gynted â phosibl. Dymunwn yn dda i bawb ac edrychwn ymlaen at weld trefn arferol yn yr ysgol unwaith eto.

Bydd dysgu wyneb yn wyneb yn ailddechrau ar gyfer disgyblion cyfnod sylfaen yn Sir Ddinbych o ddydd Mercher, Chwefror 24ain, ar y cynharaf. Daw hyn yn dilyn y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru y bydd disgyblion rhwng 3 a 7 oed yn dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb.

Mae'r Cyngor yn sicrhau rhieni a gofalwyr y bydd ysgolion yn agor eto ar yr amod bod yr holl fesurau diogelwch angenrheidiol ar waith, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru ac yn unol â'i chanllawiau gweithredu.

Caeodd ysgolion y sir ar 16eg Rhagfyr ac maent wedi aros ar agor ar gyfer dysgu ar-lein yn ogystal â dysgu wyneb yn wyneb i blant gweithwyr allweddol a dysgwyr agored i niwed. Mae'r ddarpariaeth hon yn parhau i bawb sy'n gymwys.

Bydd prydau ysgol am ddim a chludiant ysgol ar gael i'r holl ddisgyblion cymwys o 24 Chwefror ymlaen, cyn gynted ag y bydd ysgolion yn ailagor.

Dywedodd y Cynghorydd Huw Hilditch Roberts, Aelod Arweiniol y Cyngor dros Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd:

'Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi, oherwydd cyfraddau trosglwyddo cymunedol is o COVID-19, y gall ysgolion ailagor i ddisgyblion cyfnod sylfaen. Yn dilyn y cyhoeddiad hwn rydym wedi siarad â phenaethiaid pob ysgol gynradd a chytunwyd y bydd addysg wyneb yn wyneb yn ailddechrau ledled y sir i ddisgyblion cymwys.

'Mae hwn wedi bod yn gyfnod anodd i ddisgyblion, rhieni a staff ac rydym am sicrhau rhieni a gofalwyr y bydd ysgolion yn parhau i weithredu mesurau hylendid trwyadl yn ogystal â sicrhau bod yr holl reoliadau ac arweiniad ar ddiogelwch disgyblion yn cael eu dilyn.

'Hoffwn unwaith eto ddiolch i ddisgyblion, rhieni a staff am eu cefnogaeth yn ystod cyfnod sydd wedi bod yn heriol iawn a'r cymunedau maen nhw'n eu cefnogi ac yn gweithio ynddynt.'

Bydd Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a thîm profi, olrhain ac amddiffyn GIG Cymru i adolygu lefelau achosion cyn ailagor ysgolion.

Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hatgoffa i gadw at fesurau pellhau cymdeithasol wrth ollwng neu nôl eich plentyn o'r ysgol.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag ysgol eich plentyn.

J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Cysylltiad Llandyrnog â mynydd Everest

Mae trafodaeth ddiddorol ar ein cyfryngau cymdeithasol lleol yn ddiweddar ynghylch atgof niwlog am George Mallory (a fu farw ar Fynydd Everest yn 1924) yn ymweld â'r ardal. Roedd yn dod o Swydd Gaer, felly a oedd wedi dod i fryniau Gogledd Cymru i ymarfer? Mae'n debyg bod rhieni ei bartner dringo, Sandy Irvine yn byw ar y pryd yn Ffordd Ddŵr Cottage ac mae hi bron yn sicr bod Mallory wedi ymweld â'i bartner dringo yma cyn iddyn nhw fynd i fynyddoedd Himalaya.

Mae ymchwil sylweddol wedi bod i geisio gwybod a gyrhaeddodd y ddau'r copa cyn iddyn nhw farw. Os mai felly oedd hi, fe fyddai hynny sawl blwyddyn cyn i Hillary a Tenzing gyflawni'r gamp, a chael eu cydnabod fel y rhai cynta i wneud hynny. Yn anffodus, nid yw hyn wedi'i brofi erioed, ac er bod corff Mallory wedi dod i'r golwg ar wyneb gogleddol Everest yn 1999, does neb wedi cael hyd i gorff Irvine.

Roedd rhieni Irvine yn Ffordd Ddŵr Cottage pan gawson nhw'r telegram gan Bwyllgor Everest: '*Committee deeply regret received bad news Everest Expedition today … your son and Mallory killed … President and Committee offer heartfelt sympathy*.' Gwelwyd y ddau ddiwetha am 11 y bore, 8 Mehefin ar uchder o 28,000 o droedfeddi, yn anelu'n gryf at y copa.

Dim ond 22 oed oedd Irvine. Mae'n ein sobreiddio wrth feddwl am y rhieni'n cael y telegram hwn ac yn edrych ar y caeau a'r bryniau rydyn ni'n eu hadnabod mor dda, yn galaru am eu mab ieuengaf.

Ysgrifennodd ficer Llandyrnog yng nghylchgrawn y plwyf ar y pryd: : '*The death of Mr A.C. Irvine of Ffordd Ddwr Cottage has brought grief to us all.*' Mae ffenest wydr lliw yn Eglwys Gadeiriol Caer er cof amdano.

**James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa Westminster: 0207 2194606


## Blue Hand Mowers

**Repair and servicing of all garden machinery:**
**Lawn mowers and lawn tractors**
**Chain saws**
**Hedge cutters**
**Strimmers**
**Disc cutters**
**Quad bikes**
**Leaf blowers**
**Hand tools**
**Collection and delivery service available**
**Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google**
**www.bluehandmowers.co.uk**
**enquiries@bluehandmowers.co.uk**
**☎0775 20 35 462**

DBP Denbigh Building Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*
*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

# Tri hoff le ... Gwen Butler

Llangwyfan yw fy hoff le, wrth gwrs. Dyna lle cyfarfu Mam a Dad a dyma'r man diogel i mi yn yr adeg anodd hon, gyda chân yr adar a phrydferthwch o 'nghwmpas i.

Ond … twyllo fyddai hynny! Felly dyma ychydig o atgofion o dri hoff le arall.

**LLUNDAIN**

Cefais fy ngeni yn Southend-on-Sea yn Essex a dyna le bûm i'n byw am wyth mlynedd gyntaf fy mywyd. Felly byddwn yn mynd yn aml i Lundain ar y trên, ac fe ddes i'n dda iawn am deithio ar y Tiwb a mynd o gwmpas y strydoedd. Un o fy atgofion cyntaf yw gweld y goeden Nadolig fawr yn Sgwâr Trafalgar.

Ers hynny, rwy wedi ymweld â sawl rhan o'r ddinas ac rwyf wrth fy modd â'r pentrefi bach sy'n ei ffurfio. Mae Marylebone, er enghraifft, yn union y tu ôl i siopau mawr Oxford Street ond mae siopau a chaffis bach amrywiol a llewyrchus yno. Mae gardd gyfrinachol ar ben to yn Kensington, er bod pawb yn gwybod amdani erbyn hyn. Mae Neuaddau'r Frawdlys a siambrau'r bargyfreithwyr yn Holborn heb newid ers cyfnod Dickens. Sefydlwyd Gardd Berlysiau yn Chelsea yn 1673 i dyfu perlysiau meddyginiaethol ac mae'n dal i fod yno. Mae Primrose Hill yn bentref arall yn y ddinas a dyna un o'r ychydig leoedd rwy'n cyfadde 'mod i wedi mynd ar goll ynddo – yn chwilio am fwyty Bryn Williams, Odette's. Fe gawson ni hyd iddo yn y pen draw ac roedd y pryd yn wych!

Ac wrth sôn am beidio â mynd ar goll ... rwy'n cofio bod yng nghanol Downing Street unwaith, ar ôl mynd drwy giât fach. Roeddwn i'n meddwl 'mod i'n torri ar draws o Horse Guards i Whitehall. Beth bynnag, sicrhaodd y plismon caredig a oedd yn gwarchod Rhif 10 'mod i'n dal i symud ... ond roedd hyn cyn y mesurau diogelwch llym sydd yno heddiw, felly rwy'n ffodus iawn na ches i fy arestio.

Rwyf wedi bod y tu mewn i'r Senedd ddwywaith (unwaith i gyfarfod â fy Aelod Seneddol ac fe ges i weld rhannau o'r lle dydy'r cyhoedd ddim fel arfer yn cael eu gweld, gan gynnwys y teras wrth ochr afon Tafwys).



Un o uchafbwyntiau ymweld â Llundain oedd mynd i'r Gemau Olympaidd yn 2012 pan welson ni Mo Farah ac Usain Bolt yn ennill medalau aur. Ond efallai mai'r atgof mwyaf teimladwy oedd gweld ac arogli cannoedd o flodau y tu allan i Balas Kensington ar ôl marwolaeth y Dywysoges Diana yn 1997. Os glywa i arogl lilis heddiw, hyd yn oed, mae'n fy nwyn yn ôl yno ar fy mhen.

**YR EIDAL**



Dydy hi ddim yn bosib dewis ardal neu dref. Rydyn ni wedi bod i Rufain, Firenze, y

# Tri lle: parhad

Llynnoedd, Sicilia (ac wedi dringo Mynydd Etna i weld yr haul yn machlud), Verona, Venezia, Capri, Sorrento, Pompeii (a dringo Vesuvius i weld achos yr holl ddinistr) – ond rwy'n edmygu'r bobl. Mae'n nhw'n rhoi'r argraff fod ganddyn nhw agwedd danllyd at bopeth, yn gweiddi ar ei gilydd, yn chwifio'u dwylo gan edrych yn flin, ac wedyn maen nhw'n ffrindiau gorau.

Rwy'n mwynhau cael cip ar *palazzo* drwy ddrws agored (dim ond busnesu!). Eistedd y tu allan yn gwylio pawb yn mynd heibio. Y môr. Y llosgfynyddoedd. Y bwyd, Y gwin. Yr hufen iâ...

**EFROG NEWYDD**

Dinas hynod ddiddorol arall ac roedd gen i awydd mynd yno erioed. Fe fuon ni ar ein mis mêl yno yn 1996 a gwneud yr holl bethau mae twristiaid yn eu gwneud: taith i'r Statue of Liberty ac Ellis Island, i Central Park ac i ben yr Empire State Building a'r World Trade Centre. Dathlwyd noson olaf ein mis mêl gyda phryd yn y Rainbow Room. Bwyty a chlwb dawnsio ar ben y Rockefeller Centre yw hwn, ac mae'n dyddio'n ôl i'r 1920au – yr arddull art deco, arian a du sgleiniog yn adlewyrchu hynny. Mae'r olygfa oddi yno'n wych – gallwch weld am filltiroedd – ond ar ôl i'r haul fachlud a'r adeiladau uchel eraill i gyd wedi'u goleuo (gan gynnwys y Chrysler Building, fy hoff adeilad, sydd gerllaw) mae'r olygfa'n anhygoel.

Yn ôl ar y stryd ac mae adeiladau a ffyrdd Manhattan yn eich atgoffa o set ffilm. Ble bynnag yr ewch, rydych chi'n edrych i fyny gan ryfeddu at faint y cyfan.

Fe aethon ni'n ôl yno ychydig ar ôl Nadolig 2001 (blwyddyn 9/11) pan oedd y goleuadau a'r ffenestri wedi'u haddurno'n brydferth iawn. Ond dwi erioed wedi bod mor oer. Roedd y gwynt a oedd yn chwipio rhwng yr adeiladau mor llym, roedd yn rhaid i mi fynd i brynu dillad isa thermal! Roedd hwn yn ymweliad teimladwy iawn gan wrth i ni ystyried ein bod wedi mynd i ben y World Trade Centre y tro cynt, a'r adeilad hwnnw bellach yn domen o gerrig, Ground Zero. Hyd yn oed yr adeg honno, dri mis ar ôl yr ymosodiad, roedd haen o lwch ar bopeth yn yr ardal.

Yr eitem nesaf ar ein rhestr o bethau i'w gwneud oedd dathlu nos Galan yn Times Square. Roedd y mesurau diogelwch yn llym iawn yn 2001, mae'n amlwg ac roedd yn rhaid i ni fod yn ein lle am oriau cyn ganol nos. Roedd fy nhraed i mor oer, fe sefais ar gwpanau polystyren. Am 7 o'r gloch, fe sylweddolais y byddai Cymru eisoes yn dathlu'r Flwyddyn Newydd, gan ei bod hi bump awr o'n blaenau ni. Ond fe arhoson ni yno ac roedd hi'n bleser gweld diwedd blwyddyn ofnadwy i Efrog Newydd.




**Oriau agor Swyddfa'r Post**

**Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener**

**9am–12pm, 3pm–5pm**

**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**

# Arwerthiant cŵn defaid

Rhaid llongyfarch Rhys Davies, Dre Goch Isaf, Bodfari ar arloesi ym maes arwerthiannau. Rhys yw Prif Weithredwr Farmers' Marts, Dolgellau. Edrychodd ar y sefyllfa bresennol o ran cyfyngu ar adael y cyhoedd i ddod i'r ocsiwn, a gwelodd y mater yn her yn hytrach nag yn fygythiad.

Yn ystod dyddiau cynnar y cyfnod clo, sefydlodd arwerthiannau ar-lein ar gyfer gwartheg Duon Cymreig. Roedd ffermwyr yn gallu mynd, cyn yr arwerthiant, i weld y gwartheg roedden nhw'n bwriadu'u prynu, ac wedyn mynd adre a chynnig amdanyn nhw ar-lein. Addasodd y diwydiant amaethyddol yn dda iawn i'r sefyllfa.

Cyfaddefodd Rhys fod ceisio cael rhai o'i gleientiaid ar-lein yn her i ddechrau. Dim ond am lein ddillad roedd rhai ohonyn nhw wedi clywed, ond er mawr syndod, fe ddysgon nhw'n gyflym iawn gyda'r cymorth a'r anogaeth iawn.

Yn sgil ei lwyddiant gyda'r arwerthiannau gwartheg, penderfynodd Rhys roi cynnig ar fenter debyg i werthu cŵn defaid. Yn y catalogau, roedd cysylltau i fideos o'r cŵn yn gweithio. Cafwyd canlyniad hollol anhygoel yn yr arwerthiant ar-lein ddechrau mis Chwefror – gwerthwyd ci bach, Kim, am £27,000, y swm mwyaf erioed drwy'r byd am gi defaid (ynghyd â phremiwm y gwerthwr, wrth gwrs)!

Prynwyd Kim, ci defaid o Geredigion, gan Eamonn Vaughan o Newcastle. Dywedodd Dewi Jenkins, a oedd yn berchen ar Kim ac wedi'i hyfforddi, ei bod hi'n hynod ddeallus ac yn gallu cyflawni tasgau ar ei phen ei hun ar ôl dangos iddi ddim ond unwaith sut oedd eu gwneud. Roedd hi eisoes wedi hel diadelloedd cyfan o ddefaid ar fferm ei pherchennog yn Nhal y Bont, er nad oedd o yn gallu ei gweld hi. Bydd Kim yn rheoli defaid Texel gyda'i pherchennog newydd ar ei fferm yng Ngogledd Lloegr.

Roedd 126 o gŵn ar werth yn yr arwerthiant ym mis Chwefror a £3,745 oedd



pris gwerthu ar gyfartaledd 80 y cant ohonyn nhw. Roedd yr enwau'n amrywio o 'Elan Valley Queen' fawreddog i 'Spot' digon cyffredin.

Bydd yr arwerthiant nesaf ddydd Mercher, 5 Mai. Beth am gael golwg arno? Fe gewch chi grafu'ch clust ... ond peidiwch â phwyso'r botwm 'cynnig'!

*Bryn Davies*

O.N. Bydd Kim yn y *Guinness Book of Records*!

**Townsend Supplies**

**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**

**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- **Tanalised timber**
- **Concrete posts**
- **Panel fencing**
- **Water pipe fittings**
- **Water tanks**
- **Sand**
- **Cement**
- **Concrete blocks**

# Y sgerbydau coll

Cafodd Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan sgwrs hynod ddiddorol dros Zoom yn ei chyfarfod diweddaraf ym mis Chwefror. Arweiniwyd yr aelodau ar drywydd rhai sgerbydau coll drwy hanes, dirgelwch a darganfyddiadau o chwe bryngaer sydd gerllaw'r pentrefi. Trafododd Dr Erin Lloyd Jones ei darganfyddiadau wrth iddi ymchwilio i'w doethuriaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar y cloddfeydd coll ar Foel Hiraddug.

Magwyd Erin, sy'n byw ym Modfari erbyn hyn, yn Nyffryn Ceiriog. Byddai'n gwirfoddoli yng Nghastell y Waun pan oedd yn ei harddegau a chafodd ei gradd gyntaf mewn archeoleg a hanes o Goleg Caer, Prifysgol Lerpwl. Mae hi'n Uwch-reolwr Gwasanaethau Digidol a Chyhoeddiadau Cadw, gwasanaeth hanesyddol amgylcheddol Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae hi ar gyfnod mamolaeth, gan ei bod hi wedi cael merch fach ym mis Mai 2020, yn ystod y cyfnod clo cyntaf.



Mae Erin yn gweithio'n rheolaidd ym myd y cyfryngau ac mae wedi cymryd rhan mewn sawl rhaglen deledu a radio gan gynnwys *Making History* ar Radio 4, *Mysteries of the Missing* ar y Discovery Channel, *Coast & Country* a *Wonders of the Coast Path* ITV, ac mae'n cyflwyno'n rheolaidd fel gwestai ar *Weatherman Walking* BBC Cymru.

Un o brif gerrig filltir gyrfa Erin oedd yr arbrawf Goleuo'r Bryngeyrydd, gan weithio gyda 200 o wirfoddolwyr ar ddeg bryngaer ar draws Cymru a Lloegr. Roedd hwn yn help i godi ymwybyddiaeth o'r bryngeyrydd yn lleol ac yn rhyngwladol, gan edrych ar safle'r henebion hyn yn y dirwedd a sut y gallai'r bryngeyrydd fod wedi cysylltu â'i gilydd ymhell cyn dyddiau Twitter a Facebook.

Aeth ymchwil doethuriaeth Erin ym Mhrifysgol Bangor yn ddyfnach i'r cysyniad hwn, gan edrych ar dystiolaeth adeileddau a dyddio'r bryngeyrydd yng Ngogledd Cymru, dros gant ohonyn nhw, ac ymchwilio i ba mor bwysig oedd yr olygfa wrth ddewis safle. Dechreuodd roi jig-so dirgel y bryngeyrydd at ei gilydd, gan ddysgu rhagor o resymau pam mae cymaint yn yr ardal hon a sut maen nhw i gyd wedi cysylltu â'i gilydd. Trafododd Erin y problemau sy'n gysylltiedig â cheisio ymchwilio i fryngeyrydd, gan gynnwys:

· Doedd dim gair ysgrifenedig yr adeg honno
· Mae enillwyr unrhyw frwydrau neu adegau yn dweud eu stori o'u safbwynt nhw eu hunain, a dydy'r rhain bob tro ddim yn adlewyrchu'r cyfnod.
· Doedd dim crochenwaith yn yr ardal hon yn yr Oes Haearn, ac mae'r rhain bob amser yn allweddol mewn helpu archeolegwyr i ddehongli'r hanes.
· Doedd dim darnau arian yn yr ardal hon.
· Mae'r pridd asidig sy'n gysylltiedig ag ardal-oedd y bryngeyrydd yn golygu bod unrhyw fet-el ac asgwrn yn cyrydu ac mae olion dynol yn brin ym Mhrydain yr Oes Haearn.

# Y sgerbydau coll: parhad

Trafodwyd y pum bryngaer ym Mryniau Clwyd – Moel y Gaer, Bodfari, Pen y Cloddiau, Moel Fenlli, Moel y Gaer, Llanbedr a Moel Arthur – cyn i Erin ganolbwyntio ar y chweched, Moel Hiraddug, yn ardal Dyserth. Mae hon yn ymestyn dros ardal o ryw 12 hectar ac mae'n mesur 450 metr o'r de i'r gogledd wrth 200 metr. Erbyn heddiw, mae siâp y fryngaer hon wedi newid oherwydd gweithgareddau cloddio, ac mae traean ohoni'n yn is na'r ffurf wreiddiol gyda thwll mawr ynddi oherwydd y cloddio. Hefyd mae mast ar ei phwynt uchaf. Un gwahaniaeth mawr rhwng hon a'r bryn-geyrydd eraill yw bod ei llechweddau a'i ffosydd yn waliau carreg galch anferth, sy'n gwneud y pridd yn niwtral. Mae hyn yn golygu bod pethau sydd yn y pridd wedi'u cadw mewn cyflwr eitha da.

Cafwyd hyd i arteffactau wrth adeiladu ffordd i'r chwarel yn 1872, gan gynnwys tarian La Tene hirsgwar gyda chynllun manwl arni (mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys wedi mabwysiadau'r cynllun yn ei logo).



Mae adroddiad diweddarach am gloddio yn sôn am ddarganfod dau sgerbwd dynol wrth un o'r mynedfeydd. Heblaw am yr unig gyfeiriad ato mewn cylchgrawn archeolegol Cymreig, does dim byd arall erioed wedi'i gofnodi, gan gynnwys beth oedd wedi digwydd i'r olion dynol hyn.

Ar ôl chwilota drwy'r archifau cloddio yn Archifau Sir y Fflint, cafodd Erin ambell lythyr a oedd yn rhoi mwy o gnawd am asgwrn y stori. Darllenodd fod dau fachgen lleol wedi sylwi ar esgyrn yn y pridd, yn ystod seibiant ar ôl gwaith cloddio yn ystod yr haf. Fe aethon nhw â'r esgyrn oddi yno a mynd â nhw at archeolegydd amatur yn y pentref. Cadarnhaodd y doctor lleol eu bod nhw'n esgyrn dynol.

Heblaw am fraslun bach mewn llyfr nodiadau, doedd dim rhagor o wybodaeth am y sgerbydau. Ar ôl cysylltu â'r cloddiwr gwreiddiol, J. L. Davies, Darllenydd Archeoleg ym Mhrifysgol Aberystwyth, cafwyd gwybod eu bod wedi'u cadw'n ddiogel yn y brifysgol. Yn anffodus, dyw ffynonellau ariannol nac amser ddim wedi bod ar gael i gofnodi darganfyddiad gwreiddiol yr olion hyn a'r cloddiadau coll hyn, a'u cyhoeddi.

Wrth ymchwilio, cafwyd hyd i luniau'r cloddio gan aelod o'r cyhoedd, wedi'u cadw mewn bocs sgidiau ac ar werth mewn siop jync. Ar ôl cael eu prynu, anfonwyd nhw i Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys ac mae'r rhain erbyn hyn wedi'u cadw'n ddiogel a'u cyhoeddi yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Mae pyrth bryngeyrydd yn bwysig iawn, gan fod llawer o weithgareddau'n digwydd yno wrth ddefnyddio'r safle. Mae nodweddion a elwir yn 'siambrau gwarchod' yn nodwedd o fryngeyrydd yn yr ardal hon. Roedd y porth a gloddiwyd ym Moel Hiraddug yn dangos dilyniant y datblygiad wrth y porth gydag amser, gan gynnwys siambrau siâp-C gydag aelwydydd ynddyn nhw. Hefyd, cafwyd hyd i gerrig tafl, gleiniau ac eitemau sy'n debyg i fwrdd gêm gyda darnau.

Bydd y Gymdeithas yn trefnu rhagor o gyfarfodydd cyn yr haf dros Zoom. I ymuno â'r rhain, ac i ymuno â'r Gymdeithas, anfonwch e-bost at llangwyfanhistory@hotmail.com. Croeso cynnes i bawb!

# Looking Forward

My great Aunt Mrs Darwin Davies dreams
Of holidays on five-star world cruises
Circling the oceans seeing the world like a goldfish through a port hole
But now in 2020 earthbound she sits and merely muses.

Her kitchen table groans with tempting brochures
To float her away from hibernation on the sea of expectation
Visiting exotic places yet unexplored
To coincide with her ninetieth birthday celebration.

She notes the places that offer exciting experiences
The decision made, vacation booked and goodbye to solitary sitting
And dreary days when walks were limited and conversation stilted.
Bring out the outfits for the Captain's table and put away the constant knitting!

Amid bunting and brass bands, we watched the ship slip its ropes
And to distant lands with strange sounding names it sailed away.
Postcards soon arrived marked with log book precision
Date, weather and location, each beginning "Today".

Today we crossed the blustering Bay of Biscay with
Churning sea and waves rough tongued
Few at dinner but I managed to enjoy two portions of brandy flambe.
Today, I floated on the surface of The Dead Sea
Saturating my skin with its healing properties
Does wonders for one's looks I can guarantee.

Today we took a bumpy ride in a Tuk Tuk in old Bangkok
Locked in for fear of swerving when speeding
Just as well as from side to side we rolled and rocked.

Today we visited Argentina where the Gauchos are so bold
Where the Sarabande and the Fandango left me cold.
But the Tango is the dance when you're tangled in a hold.
Today in Peru I fell in love with llamas
Just stroking them the sensation is pure karma
And even their wool makes warming pyjamas.

Today the spiced aromas of food stalls in Singapore
Led me straight to Raffles famous colonial door
To imbibe a Singapore Sling and reminisce on days of yore.

Today in Oman, oh man! I walked through a grove of frankincense trees
Where the perfume of Christmas came floating on a breeze.
By the way extending my trip, a case of "carpe diem" – the day to seize.

So to the Arctic with snow and ice and as it's minus ten degrees
I'm off to be fitted for suitable skis. I'm sure you'll agree
Best to try the sport when I can still bend the knees!
Love to all. Don't worry about me.
Will write when I'm more free.

**Wendy Grey-Lloyd©**

Diolch o galon unwaith eto i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau i'r rhifyn hwn .

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn : 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Chwefror y Cyngor Cymuned

Mae'r offer chwarae newydd wedi'i archebu a bydd cynrychiolydd Wicksteed yn dod i Gae Nant 11 Mawrth i drafod y rhaglen.

Mae'r tyllau yn y ffordd ger Maes Clwyd wedi cael eu llenwi, ond nid yw'r gwaith o safon dda iawn. Felly hefyd y tyllau ger y Kinmel Arms. Mae'r Cyngor Sir wedi sicrhau'r Cyngor Cymuned y bydd y darn hwn o'r ffordd yn cael wyneb newydd, sy'n esbonio'r gwaith dros dro o lenwi'r tyllau.

Nid yw'r llinellau gwyn wedi cael eu rhoi ar groesffordd Llangwyfan eto.

Mae'n amlwg bod Swyddog Diogelwch y Ffyrdd, Cyngor Sir Ddinbych, wedi cael nifer fawr o geisiadau gan bentrefi gwledig am fesurau i arafu traffig. Mae'r cyllid ar gyfer hyn yn brin ac mae'n anodd iawn iddo flaenoriaethu'r gwaith.

Mae Arla wedi rhoi'r wybodaeth ddiw-eddaraf am adleoli'r offer. Bydd y gwaith yn parhau am beth amser ond mae wedi ymrwymo i ofalu am y safle ar ôl i'r gwaith hwn orffen. Y gobaith yw cael prynwr addas i'r safle. Roedd y ffordd yn y cyffiniau wedi'i chau 23–25 Chwefror i symud rhai o'r seilos oddi yno.

Er bod y Clerc wedi gwneud cais i Gyngor Sir Ddinbych am gyfraniad gan y gronfa Symiau Gohiriedig i helpu i dalu am yr offer chwarae newydd, does dim arian wedi'i glustnodi i Landyrnog. Ni fydd hyn yn effeithio ar y cynlluniau i uwchraddio'r offer.

Mae'r Plismon Cymunedol wedi cadarnhau na fydd yn mewngofnodi i unrhyw gyfarfodydd rhithiol a bod y manylion am nifer y troseddau ar gael ar wefan Heddlu Gogledd Cymru https://www.northwales.police.uk. Ond fe fydd yn fodlon i ddelio ag unrhyw fater perthnasol mae'r gymdogaeth yn ei godi.

Mae'r Plismon Cymunedol wedi bod i'r pentre ac mae'n ymddangos bod y broblem o barcio ar y palmant yn ardal Oliver's Row wedi gwella. Bydd angen cadw golwg arni.

Mae MCH wedi cadarnhau y bydd yn trefnu cyfarfod rhithiol o Grŵp Cyswllt y Trigolion cyn bo hir.

Nid yw'r Cyngor Cymuned wedi gwneud cais i gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog am y maes chwarae nac unrhyw brosiect arall. Gan fod modd gwneud cais bob blwyddyn, y teimlad oedd y byddai angen paratoi'n well i gyflwyno cais cadarn.

Cafwyd cais am gymorth ariannol gan Llais Llandyrnog a chytunwyd i drafod hyn yng nghyfarfod mis Mawrth, ynghyd â'r ceisiadau eraill a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn sicrhau eu bod i gyd yn cael eu trafod yn deg.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr Is-grŵp Ariannol a bydd hwn yn cyfarfod bob tri mis i ganolbwyntio'n llwyr ar faterion ariannol, rheoli risgiau ac archwilio, er mwyn helpu'r Clerc yn ei ddyletswyddau fel y Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Nid oes unrhyw fwriad i adael i neb logi'r Ystafelloedd Coco nes bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi canllawiau clir ynglŷn â hyn a phob risg sy'n gysylltiedig ag ailagor wedi'i hasesu.

Nid oedd unrhyw faterion cynllunio i'w trafod.

Cafwyd adroddiad bod y cwteri ar naill ochr y fynedfa i Faes y Wern wedi'u rhwystro a bod angen eu glanhau. Bydd cwteri sy'n gollwng ar dŷ preifat yng nghanol y pentre yn cael eu riportio i'r perchnogion drwy'r contractwr sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r stad.

**Cyfeillion Ysbyty Rhuthun**

Cafwyd adroddiad gan y Cyngh. Butler eu bod wedi cynnal y cyfarfod blynyddol yn rhithiol am y tro cyntaf erioed, ac roedd aelodau'r pwyllgor, cynrychiolwyr lleol y Cyngor Sir, a Darren Millar AS yn bresennol.

Ailetholwyd pob swyddog. Soniodd y trysorydd am ddiffyg cyfleoedd i godi arian oherwydd y pandemig, ond canmolodd y pwyllgor am werthu cardiau Nadolig drwy

# Y Cyngor Cymuned:parhad

siopau lleol. Hefyd cyhoeddodd y bydd rhodd o ewyllys yn dod cyn bo hir. Mae'r pwyllgor wedi parhau i dalu am offer i'r ysbyty (fel peiriant ECG) yn ystod y flwyddyn.

Rhoddodd y Fetron sylwadau ar sefyllfa Covid-19 a chanmolodd y staff. Mae pob aelod o staff wedi cael eu brechu erbyn hyn. Mae'r clinigau, yr unedau profion gwaed, cleifion allan a ffisiotherapi i gyd yn parhau gwasanaeth, ond 60% o'r lefel flaenorol, gyda system apwyntiadau lem i ystyried cyfyngiadau Covid.

Mae'r gwaith adeiladu'n parhau ac mae'r maes parcio newydd yng nghefn y safle yn ddefnyddiol iawn. Mae'r uned ffisiotherapi wedi symud i mewn i'r prif adeilad a dylai gweddill y gwaith adeiladu fod wedi'i orffen erbyn mis Tachwedd eleni.

Bydd cam nesa ailwampio'r prif adeilad yn cynnwys mynedfa wedi'i haildrefnu, ystafelloedd i berthnasau, a bar te a siop newydd. Gwirfoddolwyr fydd yn gofalu am y rhain.






# Diogelu gyrwyr ifanc

Mae Joe Hinchcliffe o'r pentre wedi bod yn ymgyrchu dros y flwyddyn ddiwetha i wneud gosod blwch du yng ngherbydau'r rhai sydd newydd basio'u prawf gyrru yn orfodol. Bydd y blwch yn cadw golwg ar sut maen nhw'n gyrru ac mae Joe'n ymgyrchu hyn yn sgil marwolaeth ei ffrind, Olivia, mewn damwain car.

Yn ddiweddar, cyfarfu Joe, ynghyd â mam Olivia, Jo Alkir, â Darren Millar AS a chynrychiolwyr Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI). Dywedodd Darren Millar bod yr ABI yn cydymdeimlo a rhannwyd eu cynigion ar gyfer cyflwyno trwydded yrru raddol, gan gyfyngu ar yrwyr dibrofiad yn ystod y 12 mis cyntaf er mwyn eu helpu i wella'u sgiliau gyrru.

Dymunwn yn dda i Joe yn ei ymgyrch er cof am ei ffrind annwyl a gobeithio y bydd nifer y rhai sy'n marw mewn damweiniau car yn gostwng o ganlyniad i'r coffâd am Olivia.

# Llosgi eithin ar Ben-y-cloddiau

Yn ddiweddar mae Ceidwaid yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi bod yn clirio eithin ac yn ei losgi fel rhan o'r gwaith i baratoi'r safle i bori gwartheg arno.

